Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2021** |
| **DYDDIAD** | **19 Ionawr 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2021

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

Mae Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2021 ("y Rheoliadau") yn diwygio'r darnau canlynol o ddeddfwriaeth:

- Deddf Addysg 2002 (Deddf 2002)
- Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002) 2005 (Rheoliadau 2005)

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau yr ystyrir eu bod yn dod o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol i Ddeddf 2002 a Rheoliadau 2005 i gywiro darpariaethau sy'n ddiffygiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn parhau i weithredu'n effeithiol. Mae'r darpariaethau dan sylw yn ymwneud ag egwyddor gwlad tarddiad, sef trefniant cilyddol rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE, nad yw bellach yn gymwys i'r Deyrnas Unedig ar ôl iddi ymadael â'r UE. Mae angen diwygio'r darpariaethau hyn, felly, er mwyn adlewyrchu diwedd y trefniant cilyddol hwn hwn, a sicrhau bod deddfwriaeth ddomestig yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl ymadael.

Mae'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (eCD) yn rheoleiddio rhai agweddau cyfreithiol ar "wasanaethau cymdeithas wybodaeth" ar draws yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sy'n anelu at ddileu rhwystrau i wasanaethau ar-lein trawsffiniol yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) a darparu sicrwydd cyfreithiol i fusnesau a dinasyddion mewn trafodiadau ar-lein trawsffiniol. I bob pwrpas, mae'n creu cynllun cydnabyddiaeth gilyddol.

Mae'r eCD yn gwneud darpariaeth benodol y cyfeirir ati fel yr egwyddor ‘Gwlad Tarddiad’ (CoO). Ym maes masnach electronig, mae hwn yn drefniant cilyddol sy'n golygu, lle bo darparwr cymdeithas wybodaeth ar-lein (ISSP) yn gweithredu o sefydliad mewn gwladwriaeth yn yr EEA, y bydd cyfraith y wladwriaeth benodol honno'n gymwys i weithgareddau ISSP, yn hytrach na cyfraith y wladwriaeth yn yr EEA lle derbynnir y gwasanaethau.

Nid yw’r trefniant cilyddol yn berthnasol bellach i ISSPs sydd wedi’u lleoli yn y DU gan fod y DU wedi ymadael â’r EEA a’r cyfnod pontio wedi dod i ben. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ISSPs sydd wedi’u lleoli yn y DU gydymffurfio â'r rheolau sy'n llywodraethu gweithgareddau ar-lein ym mhob un o wladwriaethau'r EEA y maent yn gweithredu o'u mewn ac y bydd gofyn i ISSPs sydd wedi’u lleoli yn yr EEA gydymffurfio â chyfraith y DU pan fyddant yn darparu gwasanaethau yn y DU. Bydd ISSPs o wladwriaethau’r EEA sy’n gweithredu yn y DU felly’n agored i gael eu herlyn yn y DU am droseddau a sefydlwyd gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (adrannau 92 a 123) ac atodlen 11B i Ddeddf 2002, a bydd ISSPs sydd wedi’u lleoli yn y DU sy’n cyflawni troseddau o’r fath yn un o wladwriaethau’r EEA yn agored i gael eu herlyn yn y wladwriaeth honno.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma:

http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2021/9780348219210

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau’n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau ac er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n weithredol ar ôl ymadael â’r UE. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau technegol hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn cydymffurfio â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.